# YMWELIADAU SAFLEOEDD CYNLLUNIO

## Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 20 Gorffennaf, 2016

| | |
|---|---|
| **YN BRESENNOL:** | Y Cynghorwyr Lewis Davies, Jeff Evans, John Griffith, Kenneth Hughes, Vaughan Hughes, Victor Hughes, Richard Owain Jones (ar gyfer cais 1 yn unig) |
| **WRTH LAW:** | Swyddog Cynllunio (CR)<br>Uwch Swyddog y Dirwedd a Choed (EH) |
| **YMDDIHEURIADAU:** | Y Cynghorydd Ann Griffith |
| **HEFYD YN BRESENNOL:** | Aelod Lleol: Y Cynghorydd Trefor Lloyd Hughes (ar gyfer cais 1) |

---

**1. 19C1174/FR – Cais llaw i newid defnydd tir ar gyfer lleoli 103 o gynwysyddion i ddibenion storio yn y Parc Menter, Caergybi**

Edrych yr Aelodau ar y safle lle bwriedir gosod y cynwysyddion a soniwyd wrthynt am y coed y bydd angen cael gwared arnynt fel rhan o'r cais. Edrychodd yr Aelodau ar y fynedfa i'r safle a'r troedffyrdd cyfagos.

**2. 20C102L/EIA/RE – 20C102L/EIA/RE – Cais llawn i godi 11 o dyrbinau gwynt gyda 6 thyrbin gwynt hyd at 900kw a hwb hyd at 55m o uchder, rotor o hyd at 52m ar ei draws a hyd at 79m i flaen y llafn, 3 thyrbin gwynt hyd at 900kw a hwb hyd at 45m o uchder, rotor hyd at 52m ar ei draws a hyd at 70m i flaen y llafn, 2 dyrbin gwynt hyd at 900kw a hwb hyd at 45m o uchder, rotor o hyd at 52m ar ei draws a hyd at 66m i flaen y llafn uwchben y ddaear ynghyd â chreu padiau craen, sylfeini, ceblau trydan o dan y ddaear, gwelliannau i rannau o'r trac presennol, creu traciau mynediad newydd, gwneud gwaith i'r brifffordd, estyniad i'r is-orsaf 33kv bresennol, codi is-orsaf 11kv newydd, codi anemomedr a chompownd adeiladu a storio dros dro ac ardal gwaith concrit (fydd yn cynnwys cael gwared ar y fferm wynt bresennol).**

Ymwelodd yr Aelodau â'r safle a chadarnhawyd manylion y cynllun. Aethant i weld yr ardal o gwmpas y safle gan gymryd i ystyriaeth 5 o'r safbwyntiau a gyflwynwyd fel rhan o'r Asesiad Tirwedd a'r Asesiad Gweledol.